Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**
—
Welsh Parliament
**Petitions Committee**

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

17 Awst 2020

Annwyl Lynne

**Deiseb Dyfarnwch raddau a ragwelwyd gan athrawon i holl fyfyrwyr Cymru ar gyfer arholiadau 2020**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi derbyn y ddeiseb a ganlyn, sydd ar hyn o bryd yn casglu llofnodion ar ein gwefan.

***Testun y Ddeiseb***

> *Mae nifer sylweddol o fyfyrwyr Cymru wedi bod dan anfantais annheg oherwydd yr algorithm mathemategol a gymhwyswyd iddynt ar gyfer canlyniadau arholiadau 2020. Bydd hyn yn rhoi pobl ifanc Cymru dan anfantais ar gyfer eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol, sy'n annheg. Mae myfyrwyr yn yr Alban yn cael graddau a ragwelwyd gan athrawon, felly byddant yn fwy tebygol o sicrhau lle yn eu dewis cyntaf o brifysgol yn 2020. Ni fydd hyn yn wir i fyfyrwyr Cymru. Nid yw'r broses yn trin myfyrwyr Cymru fel unigolion.*

Ers ei chyhoeddi ddydd Gwener 14 Awst, mae'r ddeiseb wedi cael mwy na 27,000 o lofnodion, sy'n amlygu ymhellach pa mor gryf yw'r pryderon bod llawer o blant a phobl ifanc wedi eu rhoi o dan anfantais oherwydd y model safoni a ddefnyddiwyd ar gyfer graddau Safon Uwch a graddau UG eleni.

Yn sgil adalw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i graffu ar frys ar ddyfarnu canlyniadau arholiadau i ddisgyblion eleni, a'r cyfyngiadau amser oherwydd bod y cynnig o leoedd Prifysgol i bobl ifanc sy'n derbyn graddau Safon Uwch ar y gorwel, teimlwn ei bod yn bwysig dod â'r ddeiseb hon i sylw eich Pwyllgor cyn eich sesiwn yfory.

Byddwn hefyd yn tynnu sylw'r bobl hynny a lofnododd y ddeiseb at eich cyfarfod Pwyllgor fel bod modd iddynt ddilyn y trafodion yfory.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDeisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPetitions@senedd.wales
0300 200 6565

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost isod.

Yn gywir

Janet

Janet Finch-Saunders AS
Cadair

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDeisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPetitions@senedd.wales
0300 200 6565